Hyfforddiant (am ddim) i wirfoddolwyr

Trefnodd Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd dri diwrnopd o hyfforddiant (am ddim) i wirfoddolwyr yn ystod mis Hydref a Thachwedd 2008, a chafwyd ymateb da iawn. Dyma ychydig o flas o'r sesiynau:-

i) 29ain Hydref:

Sgiliau Gwrando i Wirfoddolwyr—cyflwyniad elfennol i sgiliau cwnsela
Dan arweiniad medrus Mrs Lynne Edwards, manteisiodd 13 o wirfoddolwyr ar hyfforddiant o safon.

Dyma rai sylwadau gwirfoddolwyr ar ôl iddynt fod ar y cyrsiau hyn :-

- Da iawn. Wedi mwynhau a dysgu llawer.
- Roedd yr hyfforddwyr yn ardderchog, a thrafodwyd holl fanylion perthnasol a mwy gyda'r grwp.
- Rwyf wedi dysgu llawer heddiw, a hoffwn ddiolch yn fawr iawn am y cyfle.
- Gwych—anffurfiol ac yn cynnwys pawb.
- Diwrnod buddiol ac diddorol dros ben
- Llawn gwybodaeth, y tiwtor yn wych – diwrnod gwerth chweil
- Cwrs blasu gwych i unrhyw un sydd â diddordeb pellach mewn hyfforddi mewn cwnsela.
- Roedd yr awyrgylch yn anffurfiol a chyfeillgar - oedd yn helpu gyda'r rhyngweithio ac yn osgoi unrhyw embaras.

ii) 31ain Hydref - **Cwrs Cymorth Cyntaf Brys** yn arbennig ar gyfer Pobl Ifanc rhwng 16 a 24 oed.

iii) 6ed Tachwedd—**Cwrs Cymorth Cyntaf Brys**
Daeth 22 o wirfoddolwyr i Adeilad yr Institiwt i gael hyfforddiant dan arweiniad Neil Adam a Beryl Williams o St John Cymru.

Tiwtoriad :- Neil Adam a Beryl Williams — St John